# Cyfathrebu'n effeithiol â phobl eraill wrth geisio cyflawni rhagoriaeth yn eich chwaraeon

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfathrebu'n effeithiol ac arferion gweithio gydag amrediad o bobl gan gynnwys hyfforddwyr a staff cynorthwyol eraill, rheolwyr, mentoriaid ac athletwyr eraill, sy'n hanfodol er mwyn cyflawni rhagoriaeth yn eich chwaraeon.

Mae'r safon yn ymwneud hefyd â gallu ymddwyn yn broffesiynol bob amser, gan gynnwys yn ystod digwyddiadau amrywiol fel cyflwyniadau a chyfweliadau lle bydd disgwyl i chi gyflwyno delwedd gadarnhaol o'ch hun, eich sefydliad a'ch chwaraeon.

Mae'r safon hon ar gyfer athletwyr sydd â'r potensial gwirioneddol i gyflawni rhagoriaeth yn eu chwaraeon ac sydd am berfformio ar y lefel uchaf.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
ymgysylltu â phobl eraill ac amrywiaeth o adnoddau er mwyn eich helpu i gyflawni rhagoriaeth yn eich chwaraeon
2.
trafod rolau a chyfrifoldebau ar gyfer eich hun a'r bobl eraill yr ydych yn ymgysylltu â nhw a chytuno arnynt
3.
dilyn gweithdrefnau sefydliadol er mwyn penderfynu sut i ddatrys unrhyw broblemau a allai godi wrth gyflawni eich rôl
4.
myfyrio ar eich delwedd broffesiynol drwy ddefnyddio adborth gan bobl eraill i'ch helpu
5.
cydymffurfio â chôd ymddygiad eich sefydliad
6.
cydymffurfio â chanllawiau digwyddiadau lle bo'n briodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o wybodaeth ac adnoddau fydd eu hangen arnoch i gyflawni eich rôl
2. eich rolau a'ch cyfrifoldebau fel athletwr
3. pwysigrwydd perthnasoedd gweithio da a dulliau cyfathrebu effeithiol
4. rôl asiantau mewn chwaraeon
5. côd ymddygiad eich sefydliad a'u gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau a gwrthdaro
6. sut i fyfyrio ar adborth pobl eraill ac ymateb yn adeiladol
7. pwysigrwydd rhoi adborth adeiladol i'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw a sut i wneud hynny
8. pam mae'n bwysig cyflwyno delwedd gadarnhaol o'ch hun, eich sefydliad a'ch chwaraeon
9. y mathau o ddigwyddiadau y bydd rhaid i chi fynd iddynt, gan gynnwys:

9.1 eich rôl/rolau a chanllawiau i'w dilyn ar gyfer pob digwyddiad

9.2 pwysigrwydd paratoi eich hun ar gyfer digwyddiadau a sut i wneud hynny

9.3 y mathau o faterion sensitif y gallech eu hwynebu mewn digwyddiadau a sut i ymateb

1. rôl cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau mewn chwaraeon a sut i fanteisio ar gyfleoedd drwy ddefnyddio'r cyfryngau

## Cwmpas/Ystod

### Pobl eraill

1. staff hyfforddi
2. staff eraill
3. athletwyr eraill
4. swyddogion
5. gweithwyr y cyfryngau
6. y cyhoedd

### Digwyddiad

1. cystadleuaeth
2. ymddangosiadau fel athletwr
3. cyflwyniadau

SKAES9

Cyfathrebu'n effeithiol â phobl eraill wrth geisio cyflawni rhagoriaeth yn eich chwaraeon

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Gorff 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Mai 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAES9 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt a Galwedigaethau Technegol, Hamdden; teithio a thwristiaeth, Chwaraeon; hamdden ac adloniant, Galwedigaethau Chwaraeon a Ffitrwydd |
| **Cyfres/Set** | Cyflawni Rhagoriaeth mewn Perfformiad Chwaraeon (Gan gynnwys Newid Mehefin 2007) |
| **Geiriau Allweddol** | Cyfathrebu; effeithiol; pobl; cyflawni; rhagoriaeth; chwaraeon |